Yn yr hinsawdd economaidd fyd-eang sydd ohoni mae cyfraniadau masnach a chymorth ar gyfer datblygu dan bwysau. Mae David Burtenshaw *yn cyfeirio at y ffaith mai nawr, yn fwy nag erioed o'r blaen, y dylai daearyddwyr gymryd cam yn ôl i ystyried effeithiau'r naill a'r llall.*

Ai masnach neu cymorth sy'n cau'r bwlch?

TopFoto/Image Works

TopFoto/keystone

Bu dadlau ynghylch cyfraniadau cymharol masnach a chymorth tuag at gau bwlch datblygiad er Adroddiad Brandt yn 1980.

Masnach

Masnach yw sylfaen creu cyfoeth a datblygiad economaidd a chymdeithasol. Mae'n dod â chystadleuaeth i farchnadoedd cartref. Cysylltir cynnydd mewn masnach â thwf mwy, gwell ansawdd bywyd a gostyngiad mewn tlodi. Fodd bynnag, mae masnach yn parhau i ogwyddo tuag at y byd datblygedig. Eto, mae'r twf cryfaf o ran masnach yng ngwledydd BRIC (Brasil, Rwsia, India a China), gwledydd incwm-canolig fel Gwlad Pwyl a rhai gwledydd incwm-isel fel Viet Nam. Gwelodd y 48 economi tlotaf eu masnach yn aros yn ei unfan. Mae tua 75% o fasnach y byd yn digwydd mewn gweithgynhyrchion a gwasanaethau rhwng economïau datblygedig. Mae masnach o Affrica, i'r de o'r Sahara, yn cynrychioli 1.3% yn unig o fasnach y byd ac yn cynnwys cynhyrchion cynradd yn bennaf. Mae Ffigurau 1 a 2 yn dangos llifoedd masnach ar gyfer Ewrop ac Affrica sy'n tanlinellu hyn. Ac eto, roedd Cynhadledd Monterrey ar Ariannu Datblygiad 2002 yn pwysleisio'r syniad 'Masnach nid Cymorth' ('*Trade not Aid*'). Mae Nod 8 a Thargedau 12-18 Datblygu'r Mileniwm i gyd yn canolbwyntio ar fasnach.

Pam nad yw masnach yn cynorthwyo datblygiad ym mhob rhan o Affrica?

Yr elfennau sy'n rhwystro mwy o fasnachu yw:

(i) tollau, yn arbennig pan fydd nwyddau'n cael eu cludo i, neu o, wledydd tirgaeedig;

(ii) isadeiledd dynol gwael fel oediadau ar ffiniau, sy'n achosi gostyngiad o 4% yn y gwerth allforio;

(iii) tanfuddsoddi mewn isadeileddau ffisegol gyda'r canlyniad fod nwyddau darfodus fel cynhyrchion ffermydd yn gallu colli 6% o'u gwerth bob dydd o ganlyniad i gludiant araf; a

(iv) costau cludiant i wledydd tirgaeedig Affrica, sydd 55% yn uwch na rhai gwledydd arfordirol.

Golyga hyn fod y costau yn uwch i wledydd tirgaeedig (mae costau cludo mewnforion yn cynrychioli 25% o'r gwerth yn Mali) a CMC (cynnyrch mewnwladol crynswth) is y pen ($UDA 680 ar gyfer gwledydd tirgaeedig Affrica o'i gymharu â $UDA 1768 ar gyfer y gwledydd arfordirol). Mae'r Indecs Galluogi Masnach (*The Enabling Trade Index*) yn seiliedig ar fynediad i'r farchnad, gweinyddu ar y ffin, costau cludiant a chyfathrebu a'r amgylchedd busnes mewn 118 gwlad (Tabl 1). Dim ond De Affrica (58) a Moroco (74) sydd ymhlith



Ffigur 1 *Llifoedd masnachol ar gyfer Ewrop, 2004*
(trwch y saeth mewn cyfrannedd â maint masnach)



Ffigur 2 *Llifoedd masnach ar gyfer Affrica, 2004*
(trwch y saeth mewn cyfrannedd â maint masnach)

y 75 uchaf. O'r 20 gwlad sydd â'r manteision isaf, mae 12 yn rhai Affricanaidd: mae gan Tchad indecs o 2.6 a Burundi 2.7 – mae'r ddwy wlad yn rhai tirgaeedig.

MATHAU O GYMORTH

Ceir gwahanol fathau o gymorth.

- Mae *cymorth bwyd a chymorth trychinebau* yn ffyrdd o ymateb yn ddi-oed i angen. Mae 12% o gymorth dwyochrog yn y ffurf hon. Weithiau mae cymorth bwyd yn gymorth tymor hir. Roedd cymorth i Eldoret yn Kenya ar ôl y terfysgoedd yn dilyn etholiad 2008 ar ffurf cymorth bwyd. Mae cyrff anllywodraethol (NGOs) yn flaenllaw yma.
- Mae *cymorth dwyochrog* yn llifo rhwng gwledydd i ariannu projectau sydd fel arfer o fudd i'r rhoddwyr oherwydd bydd yn ddibynnol ar yr arbenigedd y byddant yn ei gyflenwi. Mae llawer o'r arian yn dychwelyd i'r wlad sy'n rhoi. Mae tua 75% o gymorth yn y ffurf hon.
- Mae *cymorth amlochrog* yn gymorth a ddaw o amrywiaeth o ffynonellau a reolir fel arfer gan asiantaethau byd-eang fel Banc y Byd.
- Mae *cymorth rhaglen* yn cefnogi buddsoddiadau allweddol fel llawer o'r cynlluniau mawr i godi argaeau. Mae Credyd Cymorth i Leihau Tlodi, Banc y Byd yn gynllun o'r fath, ac mae'n cefnogi darparu cyffur gwrth-retrofirol yn Moçambique.
- Mae *cymorth cyfyngedig* yn clymu'r derbynnydd i'r wlad sy'n rhoi, yn arbennig pan yw'r wlad honno yn dymuno elwa mewn ffordd benodol, er enghraifft, cymorth China yn Sudan ac yn Zambia.
- Mae *cymorth anghyfyngedig* yn rhoi dewis i'r derbynnydd.
- Mae *rhyddhad dyledion* yn fath o gymorth oherwydd mae'n dileu'r taliadau llog sy'n ddyledus. Fe'i defnyddir i ysgafnhau baich dyledion gwledydd sy'n ad-dalu benthyciadau ond sy'n gweld y symiau dyledus yn cynyddu er gwaetha'r ad-daliadau. Cynyddodd hyn bedair gwaith o 7% o Gymorth Datblygiad Swyddogol (ODA) yn 2001 i 30% yn 2005. Rhwng 1992 a 2001 roedd cyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer rhyddhad dyledion 7% yn unig yn fwy na ODA mewn un flwyddyn, sef 1998, pan oedd yn 9%. Mewn termau absoliwt, roedd tua 60% o'r cynnydd mewn ODA rhwng 2004 a 2005 ar gyfer rhyddhad dyledion. Anogodd Cynhadledd Monterrey 2002 y gwledydd sy'n rhoi i sicrhau na fyddai adnoddau a ddarparwyd ar gyfer rhyddhad dyledion yn tynnu oddi ar adnoddau ODA a fwriadwyd ar gyfer datblygiad. Yn wir, defnyddiwyd rhyddhad dyledion ar gyfer cymorth trychinebau yn Indonesia a Pakistan yn 2005.
- Mae *dyngarwch a chyfraniadau preifat* yn ffurfiau ar gymorth, fel y Gates Foundation a sefydlwyd gan sylfaenydd Microsoft. Mae dyngarwch enwogion yn cael ei hybu gan bobl fel Bob Geldof a Bono ac yn cael ei gopïo yn China, India a Malaysia. Yma hefyd dylid cynnwys *dyngarwch crefyddol*.
- *Taliadau* yw'r symiau a anfonir yn ôl gan fudwyr cyfreithlon ac anghyfreithlon i'w mamwledydd, e.e. arian o Dubai i Pakistan neu o UDA i México.

Yn Nhabl 1 dangosir rhoddwyr cymorth a restrir yn ôl canran yr incwm gwladol crynswth (GNI) a roddir fel cymorth. Mae Indecs Ansawdd Cymorth Roodman yn rhoi persbectif arall sy'n cynnwys ffactorau goddrychol: ansawdd y drefn lywodraethol, tlodi, cosbi cymorth cyfyngedig, gwneud darpariaeth ar gyfer ôl-lifoedd yn gwasanaethu dyled, projectau bychain a lledaeniad projectau, a gwobrwyo polisïau trethi i annog rhoddion elusennol preifat. Dim ond UDA, Awstria, y Ffindir a Sweden a gefnogodd yr olaf yn 2004.

YMRWYMIADAU DIFFYGIOL

Cytunodd uwchgynhadledd y G8 yn Gleneagles yn 2005 i gynyddu ODA i 0.7% o incwm gwladol crynswth (GNI) ac eto yn 2006 a 2007 gostyngodd y canran 15%. Mae hyn wedi digwydd ar ôl pob cynhadledd genedlaethol bwysig. Disgynnodd canran cynnyrch gwladol crynswth (GDP) y gwledydd datblygedig a glustnodwyd ar gyfer ODA yn 1993, yn dilyn Uwchgynhadledd Rio. Ymrwymodd y gwledydd datblygedig o ddifrif i gynyddu ODA, ac yna mynd ati i'w leihau. Dywedodd y G77, sy'n cynrychioli'r gwledydd sy'n datblygu, bod effeithiolrwydd cymorth yn ddibynnol ar ffactorau fel cyfradd y berchenogaeth genedlaethol a lleol, ansawdd polisïau cartref ac i ba raddau mae'r ODA yn ymateb i amcanion polisïau cartref. Sylweddolodd Cynhadledd Monterrey fod effeithiolrwydd cymorth yn cael ei beryglu gan amodau beichus a orfodwyd gan y rhoddwyr. Amodau fel cyfyngu cymorth a chan ddiffyg cytgord yn amodau a gweithdrefnau gweithredol y gwledydd sy'n rhoi, gan gynnwys sefydliadau amlochrog.

CYMORTH AR GYFER MASNACH

Ers Adroddiad Brundtland 1987, mae'r pwyslais wedi bod ar y ffaith fod cymorth yn gynaliadwy ac yn cael ei gysylltu â datblygiad masnach. Mae cymorth ar gyfer cynlluniau masnach deg wedi cynorthwyo yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae perygl y bydd

cymorth ar gyfer masnach yn cael ei ddefnyddio i wrthweithio colledion o ganlyniad i ddirywiad mewn telerau masnachu. Dau syniad a gyflwynwyd i liniaru rhai o'r materion yw gosod treth ar bob symudiad ariannol dros ffiniau (Treth Tobin ar lifoedd ariannol rhyngwladol) a diddymu dyledion (a gynigwyd gan Jiwbili 2000).

CASGLIAD

Nid yw masnach na chymorth wedi datrys problemau gwledydd sy'n datblygu. Gan wleidyddiaeth fyd-eang y mae'r ateb i wneud masnach a chymorth yn fwy llwyddiannus.

"Ein bwriad yw cynyddu cyfleoedd i bobl mewn gwledydd sy'n datblygu i oresgyn newyn a thlodi."
www.gatesfoundation.org

Gwlad yn ôl % GNI 2008	$UDA (miliynau)	ODA 2008 % o GNI (targed 0.7% y CU)	% o duedd GNI 2005-2008	Indecs Ansawdd Cymorth Roodman 2004	Indecs Rhoddion Preifat, Canolfan Ffyniant Byd-eang 2007 $UDA biliwn	Indecs Galluogi Masnach 2008 (safle)
Sweden	4508	**0.98**	+0.04	0.5	0.10	5.71(3)
Luxembourg	382	**0.92**	+0.13	dim data	0.02	5.5(12)
Norwy	3638	**0.88**	-0.06	0.4	0.25	5.65(4)
Denmarc	2570	**0.82**	+0.01	0.48	0.09	5.62(6)
Yr Iseldiroedd	6522	**0.8**	-0.02	0.45	0.95	5.51(11)
Iwerddon	1192	0.58	+0.16	0.12	0.32	5.2(20)
Gwlad Belg	2214	0.47	-0.06	0.21	0.34	5.21(18)
Y Ffindir	981	0.43	-0.03	0.19	0.06	5.61(7)
Sbaen	6138	0.43	+0.16	0.07	0.36	5.03(22)
DU	12,217	0.43	-0.04	0.19	4.12	5.3(16)
Awstria	1555	0.42	-0.10	0.15	0.12	5.42(15)
Y Swistir	1794	0.41	-0.03	0.21	0.50	5.58(9)
Ffrainc	10,168	0.39	-0.08	0.23	1.03	5.2(19)
Yr Almaen	12,994	0.38	+0.02	0.15	1.27	5.58(8)
Awstralia	3038	0.34	+0.09	0.11	0.66	5.22(17)
Canada	4577	0.32	-0.02	0.14	1.36	5.62(5)
Seland Newydd	355	0.3	+0.03	0.03	0.09	5.52(10)
Portiwgal	471	0.27	+0.06	0.1	0.03	4.48(26)
Yr Eidal	4059	0.2	+0.03	0.11	0.06	4.7(33)
Japan	7679	0.18	-0.10	0.09	0.45	5.43(13)
UDA	25,439	0.18	-0.05	0.07	36.90	5.42(14)

Ffynhonnell: *OECD Development Statistics Online*
GNI = Inwm Gwladol Crynswth/Gross National Income
ODA = *Cymorth Datblygiad Swyddogol*/Official Development Assistance

ADOLYGIAD

Pwyntiau allweddol

- Hyd yma nid yw masnach wedi galluogi datblygiad yn y byd sy'n datblygu. Y byd datblygedig sydd wedi elwa arno.
- Mae llawer o rwystrau yn llesteirio masnach sy'n datblygu.
- Mae gwahanol fathau o gymorth.
- Nid yw'r rhan fwyaf o fathau o gymorth yn atebion delfrydol i broblemau gwledydd sy'n datblygu.
- Mae'r gwledydd sy'n rhoi yn dal heb gyflawni eu hymrwymiadau.

Munud i feddwl

- A yw problemau masnach a chymorth yn rhai gwleidyddol?
- Sut all y gwledydd sydd newydd eu diwydianeiddio (NICs) a gwledydd BRIC gyfrannu at leihau'r bwlch datblygiad?
- A fydd y byd bob amser yn anghyfartal?
- Er mai llifoedd ar gyfer 2004 sydd ar y mapiau, ychydig iawn ar y cyfan fydd llifoedd masnach wedi newid ers hynny. Mae Banc y Byd yn parhau i ddefnyddio mapiau cyn y wasgfa gredyd. Bydd y wasgfa gredyd wedi gostwng meintiau masnach, a bydd hyn wedi arwain at gulhau trwch llinellau'r llifoedd ond heb newid y patrwm cyffredinol. Ydych chi'n cytuno?
- Gwnaed addewidion newydd yn Uwchgynhadledd y G8 yn L'Aquila ym mis Gorffennaf 2009. A yw'r rhain yn debygol o gael eu gwireddu?
- Mae China wedi dod yn brif bartner masnachu Affrica ar ôl America; mae masnach rhwng Affrica a China wedi chwyddo o ychydig dros $UDA 6.5 biliwn yn 1999 i $UDA 107 biliwn yn 2008. Yn 2009 cynigodd China werth $UDA 950 miliwn o gymorth i Zimbabwe a chaiff ei ddyfynnu yn dweud 'rydym am aros yn y wlad'. Pa fuddsoddiadau eraill a wnaeth China yn Affrica?

Cyd-destun

- Mae'r erthygl hon yn edrych yn fanwl ar y ddadl sy'n parhau ynglŷn â rhinweddau masnach neu gymorth fel y ffordd orau o sicrhau datblygiad.
- Mae'n dangos sut y gallai cyrff rhyngwladol a gwleidyddion gynnig atebion gwahanol.
- Mae'r bwlch datblygiad yn parhau i fodoli ac efallai ei fod yn cynyddu.
- Bydd lleihau'r bwlch datblygiad yn dod yn fwy anodd o ganlyniad i arafiad economaidd byd-eang.

YMATEB

Cymathiad

1 Beth yw'r prif wahaniaethau rhwng mapiau patrymau masnach Ewrop ac Affrica yn 2004? Sut y gallai'r patrymau hyn fod wedi newid erbyn 2009?
2 Pam y mae gwledydd tirgaeedig yn Affrica dan anfantais?
3 Allwch chi enwi Nodau Datblygu'r Mileniwm?
4 Beth yw NGOs?
5 Pam y mae llawer o bobl yn credu bod gwledydd datblygedig wedi methu yn eu hymrwymiadau i estyn cymorth?

Gwerthusiad

1 Astudiwch Dabl 1. Dadansoddwch a chynigwch eglurhad am batrymau ODA, ansawdd cymorth a rhoddion preifat.
   Cynllun ateb
   - Y pwynt allweddol yw fod yr indecsau yn gosod gwledydd mewn gwahanol sefyllfaoedd oherwydd bod y dulliau o fesur yn seiliedig ar wahanol feini prawf.
   - Mae polisïau cymorth rhai gwledydd yn eu gosod yn uchel ar lawer o indecsau – mae gwledydd Llychlyn yn amlwg iawn.
   - Mae maint economi'r Unol Daleithiau yn golygu bod y wlad â'r ODA mwyaf yn ogystal â'r rhoddion preifat mwyaf. Mae Ffrainc, yr Almaen a'r DU yn rhoddwyr preifat pwysig.
   - Awgryma newidiadau ers 2005 fod dirwasgiad yn effeithio ar lawer o wledydd. Mae pleidiau llywodraethol wedi gorfod ffrwyno gwariant – mae cymorth yn darged hawdd. Roedd Japan mewn cyfnod o ddirwasgiad drwy'r cyfnod.
   - Gall esboniadau ganolbwyntio ar bolisïau cenedlaethol tuag at ddatblygiad fel yn Llychlyn a'r Iseldiroedd, cysylltiadau trefedigaethol (y DU, Ffrainc, Portiwgal), cyfoeth economaidd.
2 Pam y mae cymaint o wledydd yn parhau i fethu rhoi 0.7% o GNI i ODA?
3 Ym mha ffyrdd y gall rhyddhad dyledion rwystro a chynorthwyo datblygiad?

Estyniad

1 Ai proses wleidyddol yn unig yw'r ateb i'r bwlch datblygiad?
2 Pam nad yw cymorth yn llwyddo i liniaru tlodi a lleihau'r bwlch datblygiad?
3 Drwy gyfeirio at un wlad, dangoswch sut y mae elfennau'r Indecs Galluogi Masnach yn cyfyngu masnach a datblygiad.
4 Os hoffech ragor o fanylion am fasnach, rhowch gynnig ar yr adnoddau canlynol: *The Global Enabling Trade Report 2008* Fforwm Economaidd y Byd. Mae hwn yn bwrw golwg fanwl ar yr elfennau sy'n rhwystro masnach; *The Index of Global Philanthropy and Remittances 2009* gan y Ganolfan Ffyniant Byd-eang (*Centre for Global Prosperity*). Mae hwn yn edrych ar roddion a thaliadau preifat o safbwynt UDA; ac mae the *World Development Report 2009: Reshaping Economic Geography* Banc y Byd yn adnodd rhagorol arall.

© Cross Academe Limited 2009